OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 191

# Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018

## RHAN 6

## BENTHYCIADAU AT FFIOEDD DYSGU

**Amodau cymhwyso i gael benthyciad at ffioedd dysgu**

**39.**—(1) Mae myfyriwr cymwys yn cymhwyso i gael benthyciad at ffioedd dysgu mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd o'r cwrs presennol oni bai bod un o'r eithriadau a ganlyn yn gymwys—

*Eithriad 1*

Pan na fo'r cwrs presennol yn gwrs mynediad graddedig carlam, mae'r flwyddyn academaidd yn flwyddyn Erasmus o gwrs a ddarperir gan sefydliad yng Ngogledd Iwerddon.

*Eithriad 2*

Pan na fo'r cwrs presennol yn gwrs mynediad graddedig carlam, mae'r flwyddyn academaidd yn flwyddyn y mae myfyriwr yn gymwys i wneud cais mewn cysylltiad â hi am—

(a) bwrsari gofal iechyd, neu

(b) lwfans gofal iechyd yr Alban,

a gyfrifir drwy gyfeirio at incwm y myfyriwr (pa un a yw swm y cyfrifiad yn cyfateb i ddim ai peidio).

*Eithriad 3*

Pan fo'r cwrs presennol yn gwrs rhan-amser neu'n gwrs mynediad graddedig carlam, mae'r flwyddyn academaidd yn flwyddyn Erasmus o'r cwrs a ddarperir gan sefydliad yn unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig.

*Eithriad 4*

**[**[F1]Mae'r cwrs presennol yn gwrs dysgu o bell ac nid yw'r myfyriwr ("M") yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

Ond nid yw'r eithriad hwn yn gymwys pan—

(a) na fo M yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs oherwydd bod M, neu berthynas agos i M, yn gwasanaethu fel aelod o'r lluoedd arfog y tu allan i Gymru, neu

(b) na fo M yn gallu bod yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs am reswm sy'n ymwneud â'r coronafeirws.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn rhl. 39 wedi eu hamnewid (gyda chais yn unol â rhl. 1(2) o'r O.S. diwygio) gan Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/708), **rhl. 6**

### Gwybodaeth Cychwyn

**I1** Rhl. 39 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 22/02/2024.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.